Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | M H Jones |
| W Evans | M B Lewis | R D Lewis |
| C Richards | D W W Thomas | T M White |
| L J Tyler-Lloyd | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Tom Evans | Prif Swyddog Cynllunio (Polisi) |
| Liam Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P B Smith

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C Anderson - Personol – Cais Cynllunio 2020/0059/FUL – mae'r ymgeisydd yn hysbys i mi.

**2 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

**3 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Dim.

## 4 Gorchymyn Cadw Coed Dros Dro - GCC 671 Tir gerllaw 42 Llwyn Close, Sgeti, Abertawe.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth o'r cadarnhad, fel Gorchymyn llawn, am Orchymyn Cadw Coed dros dro 671, tir gerllaw: 42 Llwyn Close, Sgeti, Abertawe (2020).

Amlinellwyd manylion cefndir y mater.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Roedd sylwadau hwyr a ffotograffau gan wrthwynebydd wedi'u cyflwyno ynghyd â chais gan y gwrthwynebydd i'r Pwyllgor ohirio'r cais gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno sylwadau'n bersonol. (Sylwer: Dosbarthwyd y sylwadau/ffotograffau y cyfeirir atynt uchod i Aelodau'r Pwyllgor â'u chyhoeddi ar wefan y cyngor cyn y cyfarfod)

**Penderfynwyd** gohirio'r adroddiad hwnnw tan gyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn rhoi cyfle i'r gwrthwynebydd fod yn bresennol.

## 5 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

1) **cymeradwyo'r cais cynllunio y cyfeirir ato isod am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.**

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2020/0059/FUL - Ailddatblygu'r safle i ddarparu 21 o fflatiau hunangynhwysol mewn un bloc 4 llawr gyda gwaith cysylltiedig yn 2-3 Tontine Street, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Ychwanegiad at yr Adroddiad ar dudalen 55
<u>Tai Fforddiadwy</u>
Fel arfer, dylai cynigion a oedd yn cynnwys datblygiadau preswyl ar safleoedd o fewn terfynau aneddiadau â lle i 5 annedd neu fwy ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy ar y safle, yn unol â gofynion Polisi H 3.

Mae'r safle ymgeisio o fewn yr Ardal Ganolog a byddai'r gofyniad hwnnw'n estyn i 20%. Er y gofyniad polisi arferol hwn, mae'r cynllun, ym mharagraff 2.4.17, yn nodi'n benodol y bydd *'cynigion ar gyfer addasu, dymchwel neu newid defnydd eiddo masnachol yn cael eu heithrio o'r polisi'.* Ar y sail hon, nid yw darparu tai fforddiadwy ar y safle'n ofyniad polisi.

## 6 Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (2019-20).

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn hysbysu Aelodau'r Pwyllgor fod Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLl) wedi'i gyhoeddi ar wefan y cyngor, a'i fod yn darparu crynodeb byr o'r prif ganfyddiadau ac yn amlinellu bod yr holl dargedau a osodwyd yn cael eu cyflawni.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.44 pm

**Cadeirydd**